Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 31 Gorffennaf, 2018

Presennol: J. Roberts (Cadeirydd), S. Edwards, (Is-gadeirydd), A. Mummery, A. Jones, G. Parry, H. Huws, G. C. Jones, Mervyn Jones, A. Williams, E. Parry, Meirion Jones D. Jones,
R. Williams (Cynghorwr Sir)

		Gweithred	Dyddiad
1.0	**Ymddiheuriadau**:		
1.1	D. Owen (Clerc), Derbyniwyd ymddiheuriad am absennoldeb gan y Clerc Dafydd Owen oherwydd gwaeledd ei ferch fach, ac yn ei absennoldeb cymerwyd y cofnodion gan Alun Mummery		
2.0	**Datganiadau o Ddiddordeb**.		
2.1	Datganwyd diddordeb gan A. Jones a G. Parry yn eitem 9.0 o'r cofnodion		
3.0	**Cyfrifon Mis Mehefin 2018**		
	Derbyniwyd yr adroddiad ac awdurdodwyd i wneud y taliadau a restrwyd. Cynnigwyd gan Alun Jones ac eiliwyd gan Meirion Jones,ond nododd Gwynfor Parry ei siomedigaeth nad oedd arian wedi ei derbyn am werthiant plotiau yn y fynwent yn dilyn cyfarfod i ddal i fynny a'r ceisiadau		
4.0	**Cynrychiolwyr Pwyllgorau Allanol**		
4.1	Cynychiolwyr allanol. Adroddodd y Cynghorydd Sir, Robin Williams am gyfarfod fu yn Ynys Mon yn rhoi diweddariad ar fater llifogydd Fis Tachwedd diwethaf gyda'r camau atal sydd yn cael eu darparu.		
5.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 26ain Mehefin 2018**		
5.1	Derbyniwyd cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Mehefin 26ain fel rhai cywir gan ofyn unwaith eto am gael enw Mervyn Jones yn gywir yn hytrach na Mefyn. Cynigwyd gan Meirion Jones ac eilwyd gan Mervyn Jones		
6.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**		
6.1	Nodwyd bod y gofyniad am gyfarfod gyda Scotish Power wedi mynd gyda chopi i Albert Owen a Rhun ap Iorwerth		
6.2	Nodwyd fod cais am grant o 200K i adgyweirio Twr Marcwis wedi mynd i mewn gan y Pwllgor Ymgyrch,ac mae Alun Mummery wedi anfon llythyr i gefnogi y cais ar ran ei hun a'r Cyngor Bro		
6.3	Ffrindiau'r Gors Dyfed Jones am gysylltu eto i geisio cael ymateb cadarnhaol		
6.4	Ffens Cae Peldroed Disgwyl Prisiau		
6.5	Sedd Wag - Derbyniwyd cais gan Miss Hannah Ellis 35 Cae Cnyciog i lenwi un o'r seddau a chroesawyd ei chais a chynigodd Hanah Hughes gydag Alun Jones yn eilio ei derbyn fel aelod.	D. Owen	
6.6	Safle We Alun Jones am gysylltu	A. Jones	
6.7	Defiblirator . Angen ei archebu	D. Owen	
6.8	Indefatigable(MOD)am drefnu arolwg o gyflwr y twr		
6.9	Llythyr llongyfarch yr ysgol wedi mynd		
6.10	Goleuadau Nadolig. Angen eu harchebu ar fyrder> Y cadeirydd i arolygu	D. Owen	
6.11	Ffurflen ad dalu Benthygiad wnaed i'r Clwb Bowlio wedi ei darparu		
6.12	W.I. Atebiad wedi mynd yn gwerthfawrogi eu diddordeb wedi mynd a'i cyfeirio at Ed Henderson y swyddog penodol yn Ynys Mon		
6.13	Baw Ci - Nodwyd nad oes gan Ynys Mon strategaeth gyfredol newydd yn dilyn dirwyn i ben y gytundeb gyda Kingdom Security		
7.0	**Cyflwyno a Chadarnhau Cofnodion Pwyllgor Fynwent 04 Gorffennaf 2018**		
7.1	Derbyniwyd y cofnodion fel y rhai cywir		
8.0	**Materion yn codi o'r Cyfarfod**		

8.1	Dim materion yn codi o'r cofnodion		
9.0	**Cyflwyno a Chadarnhau Cofnodion Pwyllgor Cyllid 04 Gorffennaf 2018**		
9.1	Derbyniwyd y cofnodion fel y rhai cywir		
10.0	**Materion yn codi o'r Cyfarfod**		
10.1	Dim materion yn codi o'r cofnodion		
11.0	**GDPR - Polisi preifatrwydd**		
11.1	Dim penderfyniad wedi wneud, I'w gadarnhau eto		
12.0	**Lwfans Cynghorwyr Cymuned**		
12.1	Cynghorwyr am yrru I'w manylion I'r clerc ar gyfer talu'r lwfans I'r rhai sydd yn dewis cymryd y taliad		
13.0	**Ceisiadau Cynllunio**		
13.1	31C191A Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn 17 Ffordd Rhiannon, Llanfairpwll		
13.2	31C432C Cais llawn i godi 5 uned gwyliau sydd yn cynnws balconi ynghyd a gosod paced trin carthffoiaeth ar dir yn Plas Britannia, Llanfairpwll		
14.0	**Gohebiaeth**		
14.1	Cylchgrawn Clerks & Councils Direct – Derbyn y wybodaeth		
14.2	Cyngor Sir Ynys Mon - Penderfyniadau Cynllunio – Derbyn y wybodaeth		
14.3	CSYM - Gorchymyn Gwahardd Traffig Trwodd Dros Dro, Croesfan Rheilffordd Llanfairpwll – Derbyn y wybodaeth		
14.4	Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd: Datganiad Ysgrifenedig - (linc: www.ynysmon.gov.uk/cdll) – Derbyn y wybodaeth		
14.5	CSYM - Penderfyniadau Cynllunio – Derbyn y wybodaeth		
14.6	Horizon - Wylfa Newydd - derbyn y cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu – Derbyn y wybodaeth		
15.0	**Materion Brys**		
15.1	Pwysleisiodd y pwysigrwydd o gofrestru DCO parthDerbyned Wylfa cyn y 14eg o Awst.		

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 25 Medi 2018 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd…… (Cadeirydd) …… Dyddiad